

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

**C. B. Jones**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms. Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 25 Ebrill 2018 am 5.00 p.m.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGAN BUDDIANT**

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYHOEDDIADAU**

**3 COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018, yn rhai cywir.

**1 – 14**

**4 LLYWODRAETH AGORED:**

**5 DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

## 6 CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

- (a) **Gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Crimmings)**

"Beth yw'r rheswm y tu ôl i osod cyfyngiadau ar gyfarpar tynnu lluniau mewn pyllau nofio sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor?"

- (b) **Gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Forey i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Fyddwch chi'n gwneud datganiad ynglŷn â blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y tymor nesaf mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol?"

- (c) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol K.Morgan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Crimmings)**

"Pa gynlluniau neu brosiectau penodol sydd gan y Cyngor ar y gweill er mwyn gwella a chynyddu nifer y gweithgareddau hamdden a thwristiaeth sy'n cael eu cynnal yng ngogledd Cwm Cynon?"

- (d) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Caple i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Pa drafodaethau mae'r Cyngor wedi'u cynnal gyda Dŵr Cymru mewn perthynas â'r gwaith ar seilwaith yng Nghwm Rhondda?"

- (e) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Harries i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a materion Corfforaethol (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber)**

"Oes modd i'r Dirprwy Arweinydd amlinellu'r cyfleoedd gwaith y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf?"

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Papur Gwyrdd – Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl**

Trafod adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

## 8 Penderfyniadau Gweithredol Brys

Trafod adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet.

95-98

## 9 Rhybuddion o Gynigion

- (a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S.Belzak a J.James:-

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

- (1) Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliannaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;
- (2) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan Lywodraeth San Steffan wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;
- (3) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisïau presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cysylltu â Llywodraeth Cymru ar frys er mwyn gofyn iddi adolygu'i phenderfyniad, a hefyd i sicrhau bod Aelodau Seneddol lleol yn lleisio barn y Cyngor a bod barn y Cyngor yn cael ei chlywed mewn cylchoedd trafod perthnasol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)."

- (b) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M.J.Powell a L.Walker:

"Mae'r Cyngor yn nodi sawl anghysondeb o ran y gymhareb Cynghorydd-etholwr/preswlydd sawl ward yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae aelodau hefyd yn nodi bod modd lleihau nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn sylweddol oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig. Byddai hyn yn golygu bod rhagor o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, megis addysg.

Gan gadw'r pethau yma mewn cof, bydd Aelodau yn gofyn i'r Swyddog sy'n gyfrifol am etholiadau i baratoi adroddiad ar gyfer Aelodau ynglŷn â sut mae modd aildrefnu wardiau'r sir er mwyn darparu balans Cynghorydd-etholwr/preswlydd sy'n fwy teg a chyfiawn gyda chymorth Gweithgor y Pwyllgor Craffu cyfrifol."

- 10 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Cynsylvia Jones'. The signature is fluid and cursive, with a long horizontal stroke at the bottom.

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor  
18 Ebrill 2018**